# GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) GORCHYMYN 2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3), 4, 25, 32, 35, 36, 45, 46, 46A, 47, 49, 51, 52 a 53 a 124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) 2013 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, gan hynny'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn weithredol o'r dyddiad a bennir yn Erthygl 1 isod, mae'r Gorchmynion hynny fel y'u nodir yn Erthygl 64 isod gan hynny yn cael eu dirymu

## ADRAN 1—RHAGARWEINIOL

Dyfynnu a chychwyn

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y 29 iwrnod o Tachwedd 2024 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Cydgrynhoi) Gorchymyn 2024.

Dehongliad

2. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn rhanddirymiad o, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliad a wneir sydd mewn grym fel pe baent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984 neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall ar yr amod pan fo gwaharddiad neu gyfyngiad sy'n cael ei osod, ei amrywio neu ei ddirymu gan y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaeth y Gorchymyn hwn yn drech.

3. Gan hynny, corfforir y Cynlluniau Ar y Stryd sy'n ffurfio Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac sy'n dwyn teitl "Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Cydgrynhoi) Gorchymyn 2024 Cynlluniau Ar y Stryd" gan gynnwys yr allwedd (y "Cynlluniau") yn y Gorchymyn hwn fel Atodlen 1 ac fe'u cofnodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn "Mynegai y Cynllun".

4. Ffurfia "Mynegai y Cynllun" Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Mae'r Gorchymyn hwn a'r tair atodlen a gysylltir â hyn yn rhan o'r Gorchymyn wedi eu selio â Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

6. Yn y Gorchymyn hwn ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r ymadroddion a ganlyn yr ystyr a roddir iddynt yn eu tro gan hynny:

ystyr "Deddf 1984" yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

ystyr "Deddf 2004" yw Deddf Rheoli Traffig 2004

ystyr "Rheoliadau 2013" yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013

ystyr "dull talu cymeradwy arall" yw dull talu a gymeradwyir gan y Cyngor a allai gynnwys, taliadau heb arian, talu dros y ffôn, taliad drwy gerdyn debyd neu gredyd, trwydded rithwir, a hwylusir gan wirio ar y safle neu o bell i gynnwys darllenydd cerdyn neu destun ffôn symudol neu alwad ffôn neu gerdyn gostyngol;

ystyr "unigolyn awdurdodedig" yw unrhyw un sydd wedi cael awdurdod ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn.

ystyr “bws” yw -

(i) cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gario wyth neu fwy o deithwyr (yn eithrio’r gyrrwr) ac mae’n cynnwys coetsis neu

(ii) bws lleol

ystyr “defnyddiwr busnes” yw rhywun sy’n meddiannu neu a gyflogir mewn mangre y mae ei chyfeiriad post mewn unrhyw stryd neu ran o stryd a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac sy’n defnyddio’r fangre honno at ddibenion amhreswyl. Os lleolir mangre fusnes neu fusnesau o fewn ffin y cynllun parcio i breswylwyr ac nid yw’n gallu gwneud cais am drwydded parcio preswyl, efallai y bydd gweithredwr y busnes yn gallu gwneud cais am un drwydded barcio.

ystyr “carafán” yw unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddi ac sy’n gallu cael ei symud o’r naill fan i’r llall (boed drwy ei thynnu) neu drwy ei chludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd.

ystyr “gofalwr”/”ymwelydd hanfodol” yw unrhyw un, fel y penderfynir o bryd i’w gilydd gan y Cyngor, sy’n cyflawni swyddogaeth ofalu yn y gymuned i gynnwys gofalwyr cofrestredig, meddygon, nyrsys ardal, gofalwyr proffesiynol ac ymarferwyr meddygol cymwys eraill sydd â rheswm gwirioneddol dros barcio mewn mannau parcio ar gyfer deiliaid trwydded parcio preswyl wrth ymweld â phreswylydd mewn sefyllfa ofalu.

ystyr “trwydded gofalwr/ymwelydd hanfodol” yw trwydded a gyflwynir yn ôl disgresiwn absoliwt y Cyngor i rywun neu sefydliad y dehonglir ei fod yn ofalwr/ymwelydd hanfodol.

ystyr “clirffordd” yw prif gerbytffordd unrhyw un o’r darnau o ffyrdd sydd wedi ei farcio yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (fel y’u diwygiwyd) ac a bennir yn y cynlluniau lle gwaharddir stopio yn ystod yr oriau cyfyngedig ar yr amod na fydd yr ymadrodd clirffordd yn cynnwys unrhyw gilfan neu fan parcio.

ystyr “coets” yw cerbydau gwasanaeth cyhoeddus sy’n cario teithwyr fel y diffinnir “coach” yn Adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981

ystyr “Cyngor” yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu ei awdurdod olynol ac mae’n cynnwys unrhyw gontractwyr gwasanaethau parcio neu asiant awdurdodedig a benodir gan neu sy’n gweithredu ar ran y Cyngor at ddibenion unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn.

mae i “berson anabl” yr un ystyr ag a roddir yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) fel y’u diwygiwyd;

ystyr “bathodyn person anabl” yw bathodyn a gyflwynir gan unrhyw Awdurdod Lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000 fel y’u diwygiwyd neu fathodyn sydd mewn grym o dan y rheoliadau hynny fel pe byddai’n Fathodyn i Berson Anabl o dan Reoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y’u diwygiwyd.

ystyr “arddangos” mewn cysylltiad â bathodyn personau anabl yw ei arddangos yn unol â Rhan III o Reoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) fel y’u diwygiwyd, a dehonglir “arddangosir” ac “arddangos” yn unol â hynny.

ystyr “cerbyd person anabl” yw unrhyw gerbyd sy’n arddangos bathodyn person anabl dilys yn gyfreithlon pan fo perchennog y bathodyn yn bresennol fel teithiwr neu fel y gyrrwr pan fo’r cerbyd wedi ei barcio.

ystyr “tystysgrif goddefeb” yw tystysgrif a gyflwynir gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn sy’n caniatáu parcio cerbyd penodedig mewn amgylchiadau penodol mewn man parcio lle byddai parcio’r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei gyfyngu arno neu ei wahardd;

ystyr “trwydded meddyg” yw trwydded a gyflwynir i ymarferydd meddygol cymwys

ystyr “gyrrwr” mewn cysylltiad â cherbyd sy’n aros neu wedi ei barcio mewn ardal gyfyngedig neu fan parcio yn y drefn honno yw’r unigolyn sy’n gyrru’r cerbyd pryd y cafodd ei barcio yn yr ardal barcio neu fan parcio gwaharddedig neu gyfyngedig;

ystyr “cerbyd trydan” yw

(i) cerbyd sy’n cael ei bweru gan drydan yn unig. Mae’r cerbyd yn cael ei wefru â ffynhonnell pŵer allanol ac yn ymgorffori brecio adfywiol, neu

(II) cerbyd sy’n cyfuno batri, modur gyriant trydan a pheiriant tanio mewnol a’r gallu i wefru’r batri o ffynhonnell pŵer allanol. Gellir gyrru’r cerbyd â’r peiriant tanio mewnol, y modur gyrru trydan, neu’r ddau gyda’i gilydd.

ystyr “cilfach gwefru cerbydau trydan” yw cilfach barcio sydd wedi ei marcio a’i harwyddo ar gyfer defnyddio cerbyd trydan yn unig tra bod y cerbyd hwnnw’n cael ei wefru drwy bwynt gwefru cerbydau trydan;

ystyr “pwynt gwefru cerbydau trydan” yw uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

ystyr “cerbydau y gwasanaeth brys” yw cerbyd a ddefnyddir gan Wasanaethau yr Heddlu, y Frigâd Dân neu Ambiwlans;

ystyr “deddfiad” yw unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus, yn gyffredinol neu’n lleol, ac mae’n cynnwys unrhyw orchymyn, rheol is-ddeddf, rheoleiddiad, cynllun neu offeryn arall sydd mewn grym yn rhinwedd deddfiad.

ystyr “nwyddau” yw unrhyw fath o nwyddau, boed yn fyw neu’n ddifywyd ac maent yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath ac mae “dosbarthu” a “chasglu” mewn cysylltiad â nwyddau yn cynnwys gwirio’r nwyddau at ddibenion eu danfon neu eu casglu.

ystyr “cerbyd nwyddau” yw cerbyd sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i’w ddefnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad.

ystyr “ardal llwytho cerbydau nwyddau” yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffyrdd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir gweithgareddau heblaw llwytho cerbydau nwyddau yn unig;

ystyr “cerbyd hacni” yw cerbyd sydd wedi ei drwyddedu o dan Adran 38 o Ddeddf Cerbydau (Tollau) 1971;

ystyr “aelwyd” yw tŷ neu fflat sydd â’i gyfeiriad post ei hun. Yn achos eiddo isranedig, mae sefydlu cyfeiriad unigol yn amodol ar gael unrhyw gydsyniad cynllunio priodol ar gyfer is-adran yr eiddo a thalu Treth Cyngor ar wahân;

ystyr “ceidwad” yw:
(a) perchennog cerbyd cymwys; neu
b) preswylydd cymwys a nodwyd ac a awdurdodir gan fusnes cofrestredig fel
yr unig neu brif ddefnyddiwr cerbyd cymwys y mae’r busnes hwnnw’n berchen arno neu y mae’r busnes hwnnw’n ei lesio; neu
c) preswylydd cymwys a nodwyd ac a awdurdodir gan berchennog cerbyd
cymwys fel unig neu brif ddefnyddiwr y cerbyd hwnnw, ar yr amod bod
perchennog y cerbyd cymwys a’r preswylydd cymwys yn preswylio yn
yr un cyfeiriad

ystyr “allwedd” yw’r allwedd sydd ynghlwm wrth y Cynlluniau y dylid ei darllen ar y cyd â’r Cynlluniau;

ystyr “cilfan” mewn cysylltiad â phrif ffordd gerbydau yw unrhyw ardal briffordd wrth ochr y brif gerbytffordd ond nad yw’n rhan ohoni ac sydd wedi ei marcio yn unol â Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (fel y’u diwygiwyd), a fwriedir ar gyfer parcio cerbydau, ar yr amod na fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd gael ei

barcio mewn unrhyw gilfan at ddibenion gwerthu nwyddau neu wasanaethau o'r cerbyd hwnnw;

ystyr "llwytho" yw llwytho neu ddadlwytho nwyddau i gerbyd neu o gerbyd;

ystyr "ardal lwytho" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffyrdd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir pob gweithgaredd heblaw llwytho;

mae "prif gerbytffordd" yn golygu bod rhan o briffordd gyhoeddus yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer traffig, ar yr amod na fydd ymadrodd prif gerbytffordd yn cynnwys unrhyw gilfan;

mae i "gar modur" yr un ystyr â'r hyn a roddir i "motor car" yn A136 o Ddeddf 1984;

ystyr "carafán fodur" yw cartref modur ac i'r gwrthwyneb.

mae i "feic modur" yr un ystyr â'r hyn a roddir i "motor cycle" yn A136 o Ddeddf 1984;

ystyr "cartref modur" yw cerbyd trwyddedig a ddosbarthir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau fel cartref modur.

mae i "car modur" yr un ystyr a roddir i "motor car" yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae "oriau dim llwytho" yn golygu mewn cysylltiad ag unrhyw ffordd lwytho yr oriau pan gyfyngir llwytho a dadlwytho ar Gynlluniau y gorchymyn hwn;

ystyr "ffordd dim lwytho" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffordd a bennir ar y Cynlluniau lle gwaherddir llwytho ar yr amod na fydd yr ymadrodd "ffordd dim lwytho" yn cynnwys unrhyw fan parcio.

mae “oriau dim stopio” yn golygu mewn cysylltiad ag unrhyw reolau dim stopio, yr oriau pan gyfyngir stopio ar y Cynlluniau;

ystyr “ffordd dim stopio” yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffordd (gan gynnwys clirffyrdd) a nodir ar y Cynlluniau lle gwaharddir stopio ar yr amod na fydd “ffordd dim stopio” yn cynnwys unrhyw fan parcio

mae “perchennog” mewn cysylltiad â cherbyd yn golygu’r unigolyn sy’n cadw ac yn defnyddio cerbyd o’r fath. Wrth benderfynu pwy oedd y perchennog ar unrhyw adeg, tybir mai’r perchennog oedd yr unigolyn a enwid yn nogfen cofrestru’r cerbyd fel ceidwad cofrestredig y cerbyd neu’r sawl sy’n defnyddio cerbyd o’r fath yn ystod ei gyflogaeth ac sydd â hawl i ddefnyddio cerbyd o’r fath fel pe byddai’n geidwad y cerbyd;

mae “parcio”, “yn parcio” ac “wedi parcio” yn cyfeirio at stopio cerbyd a hwnnw’n aros yn ddisymud am beth amser p’un a yw’r gyrrwr yn dal yn y cerbyd ai peidio, a bernir bod cerbyd wedi ei barcio am unrhyw gyfnod yn yr un man parcio neu gilfan barcio (yn ôl y digwydd) os bydd unrhyw ran ohono/i o dan y cerbyd neu lwyth y cerbyd (os oes) p’un a yw’r cerbyd yn cael ei symud yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio.;

ystyr “cilfach barcio” yw ardal ffordd mewn man parcio a ddarperir ar gyfer gadael cerbyd ac fe’i nodir yn y fath fodd ag a benner yr awdurdod ffyrdd lleol gan ddefnyddio arwyddion, marciau cerbytffordd, llinellau neu arwyddion eraill.

mae i “ddisg barcio” yr un ystyr ag yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000 Awdurdodau Lleol fel y’u diwygiwyd sy’n gallu dangos y cyfnod o chwarter awr pryd y dechreuwyd cyfnod o barcio.

ystyr “man parcio” yw ardal ffordd a ddynodir gan y Gorchymyn hwn ar gyfer parcio cerbydau o ddosbarthiadau penodol ac a nodir ar gerbytffordd gan farciau yn unol â Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (fel y’u diwygiwyd).

ystyr “cerbyd teithwyr” yw cerbyd modur (ac eithrio beic modur) a adeiladwyd neu a addaswyd yn unig ar gyfer cludo dim mwy na 12 o deithwyr (ac eithrio’r gyrrwr) a’u heitemau a heb dynnu ôl-gerbyd;

ystyr “talu dros y ffôn” yw dull o dalu’r tâl parcio sy’n cynnwys cofrestru taliad dros y ffôn neu fodd electronig ac, y tro cyntaf, cofrestru rhif cofrestru perthnasol y cerbyd, lleoliad y man parcio, manylion cerdyn credyd neu ddebyd neu unrhyw fanylion eraill fel y bo’n ofynnol gan y Cyngor o bryd i’w gilydd a dderbynnir gan y Cyngor fel dull talu dilys ar gyfer yr amser perthnasol y defnyddir y man parcio;

mae i “Dâl Cosb” yr un ystyr a roddir i “Penalty Charge” yn adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 neu unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol sy’n galluogi felly ac mae’n golygu’r tâl a bennir gan y Cyngor o dan Adran 77 o ran 6 ac atodlen 9 o Ddeddf 2004, y mae’n rhaid ei dalu, yn unol â rheoliadau 2013, i’r Cyngor ar ôl i Hysbysiad Tâl Cosb gael ei gyflwyno ac o fewn y cyfnod a hysbysir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb, gan ddechrau ar y dyddiad pan gyflwynir yr hysbysiad hwnnw.

ystyr “hysbysiad tâl cosb” yw hysbysiad a ddosberthir neu a gyflwynir gan unigolyn a awdurdodir gan y Cyngor yn unol â darpariaethau rhan 6 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau 2013.

ystyr “trwydded” yw unrhyw drwydded a gyflwynir gan y Cyngor o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn;

ystyr “deiliad trwydded” yw rhywun sy’n dal trwydded ddilys a gyflwynwyd gan y Cyngor o dan ddarpariaethau y Gorchymyn hwn;

ystyr “oriau a ganiateir” yw’r cyfnodau a bennir ar gyfer pob man parcio y caniateir i gerbydau o ddosbarth penodol barcio yn ystod yr oriau hynny fel y nodir ar y Cynlluniau;

ystyr “Cynlluniau” yw’r cynlluniau yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

mae “oriau gwaharddedig” mewn cysylltiad ag unrhyw ffordd waharddedig yn golygu’r oriau pan waherddir aros neu lwytho fel y nodir ar y Cynlluniau;

ystyr “ffordd waharddedig” yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffordd a nodir ar y Cynlluniau lle gwaharddir aros ar yr amod na fydd yr ymadrodd “ffordd waharddedig” yn cynnwys unrhyw fan parcio;

ystyr “ymarferydd meddygol cymwys” yw rhywun sydd wedi ei gofrestru’n llawn yn unol ag ystyr Deddf Meddygaeth 1983;

ystyr “gofalwr cofrestredig” yw rhywun a gyflogir gan y Cyngor neu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ddarparu gofal i bobl eraill wrth arfer ei swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad.

mae i “safle perthnasol” mewn cysylltiad ag: -

(a) bathodyn a disg barcio person anabl yr un ystyr ag a roddir yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000, fel y’u diwygiwyd;

(b) mae tystysgrif neu dystysgrif goddefeb yn golygu ei harddangos ar y sgrîn wynt, borden flaen neu ffasgia y cerbyd neu, pan nad oes gan y cerbyd sgrîn wynt, borden flaen neu ffasgia, mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod yr holl wybodaeth ar flaen y drwydded yn amlwg yn ddarllenadwy o’r tu allan i’r cerbyd; ac

(c) mewn cysylltiad â cherbyd sy'n arddangos haenell cerbyd hacni, yr haenell a roddir ar y cerbyd yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir yn y drwydded fel y'u cyflwynwyd gan y Cyngor.

ystyr "preswylydd" yw rhywun y mae ei breswylfa arferol mewn mangre y mae ei gyfeiriad post mewn unrhyw ffordd neu ran o ffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3.

ystyr "trwydded preswylydd" yw trwydded a gyflwynir i breswylydd i ganiatáu parcio mewn man parcio ar gyfer rhywun sydd â thrwydded breswylydd

ystyr "trwydded ymwelydd preswylydd" yw trwydded a gyflwynir i ymwelydd i ganiatáu parcio mewn man parcio ar gyfer rhywun sydd â thrwydded breswylydd

mae "oriau cyfyngedig" mewn cysylltiad ag unrhyw ffordd gyfyngedig yn golygu'r oriau pan gyfyngir ar aros neu pan gyfyngir ar weithgareddau penodol fel y nodir ar y Cynlluniau;

ystyr "ffordd neu barth cyfyngedig" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau y ffyrdd a nodir ar y Cynlluniau lle cyfyngir ar aros neu weithgareddau penodol yn ystod yr oriau cyfyngedig, ar yr amod na fydd yr ymadrodd "ffordd gyfyngedig" yn cynnwys unrhyw fan parcio;

ystyr "safle tacsis" yw ardal gerbytffordd a nodir gan farciau ffyrdd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 i'w defnyddio gan gerbydau hacni;

mae i "system delathrebu" yr un ystyr a roddir i "telecommunication system" yn Neddf Telathrebu 1984;

ystyr "ôl-gerbyd" yw unrhyw gyfarpar a dynnir gan gerbyd modur, gan gynnwys carafán.

oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, ystyr "cerbyd" yw cerbyd o unrhyw ddisgrifiad ac mae'n cynnwys peiriant neu offeryn o unrhyw fath a dynnir neu a yrrir ar hyd ffyrdd, p'un ai drwy bŵer mecanyddol ai peidio.

ystyr “trwydded parcio rithwir” yw cofnod electronig o docyn parcio, trwydded, goddefeb neu oddefeb a gyflwynir ac a gadarnheir gan y Cyngor i esemptio cerbyd rhag cyfyngiad yn narpariaethau y Gorchymyn hwn, o dan y telerau sy’n berthnasol ar yr adeg pryd y’i cyflwynir. Gellir cael trwydded rithwir gan unrhyw un o’r dulliau a ddarperir o bryd i’w gilydd gan y Cyngor ac, i fod yn ddilys, mae’n rhaid ei chofrestru ar gyfrif mewn cronfa ddata electronig a gymeradwyir gan y Cyngor gydag arwydd bod y drwydded wedi ei chyhoeddi a’i dilysu yn unol â gweithdrefnau y Cyngor.

ystyr “aros” ac “yn aros” yw stopio cerbyd a’i fod yn aros yn ddisymud am beth amser p’un a yw’r gyrrwr yn dal yn y cerbyd ai peidio; mae aros ac yn aros yn berthnasol fel ar gyfer “parcio”, “yn parcio” ac “wedi parcio”

ystyr “parth” yw ardal sy’n cynnwys y ffyrdd perthnasol a nodir yn ardaloedd priodol y Cynlluniau ar gyfer yr Atodlenni.

7. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen sydd wedi ei rhifo, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad at y Cynlluniau yn gyfeiriad at y Cynlluniau a gorfforir yn yr Atodlenni ar gyfer y Gorchymyn hwn.

8. Bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddeddfiad yn y Gorchymyn hwn yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y’i diwygiwyd, fel y’i cymhwyswyd, fel y’i cydgrynhowyd, fel y’i hailddeddfwyd gan, neu fel pe byddai mewn grym yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

9. Cymhwysir Deddf Dehongli 1978 i ddehongli’r Gorchymyn hwn fel y’i cymhwysir i ddehongli Deddf Seneddol ac, fel pe byddai at ddibenion Adran 21 o’r Ddeddf honno pe byddai Deddf Seneddol a’r Gorchmynion yn cael eu diddymu gan y Gorchymyn hwn pe byddai Deddfau Seneddol yn cael eu diddymu drwy hynny.

10. Os yw llys, yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Ganolfan Gorfodi Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

## ADRAN 2—GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO

Gwahardd aros

11. Ac eithrio fel y darperir yn Erthyglau 15 i 23, ni fydd neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd aros/parcio ar unrhyw adeg ar unrhyw ffordd waharddedig fel y nodir ar y Cynlluniau.

Cyfyngu ar aros

12. Ac eithrio fel y darperir yn Erthyglau 15 i 23, ni fydd neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ffordd gyfyngedig ac eithrio yn unol â'r cyfyngiadau a nodir ar y Cynlluniau (gan gynnwys cyfyngiadau o ran aros yn ystod oriau cyfyngedig).

Cyfyngu ar lwytho a dadlwytho

13. Ac eithrio fel y darperir yn Erthyglau 15, 16 a 22, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd na cherbyd dosbarth penodedig aros at y diben o alluogi i nwyddau gael eu llwytho na'u dadlwytho o'r cerbyd ar unrhyw ffordd ddim llwytho yn ystod yr oriau dim llwytho fel y nodir ar y Cynlluniau.

Cyfyngu ar stopio

14. Ac eithrio fel y darperir yn Erthyglau 15, 16 a 22, ni fydd neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw ffordd stopio na chlirffordd yn ystod yr oriau dim stopio fel y nodir ar y Cynlluniau.

Argyfyngau

15. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 14 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r ffyrdd, y darnau o ffordd neu ar ochrau y ffordd neu'r ardaloedd llwytho neu'r ardaloedd llwytho cerbydau nwyddau a bennir ynddynt gyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn argyfwng at ddibenion tân ac achub, ambiwlans neu'r heddlu:

Esemptiadau cyffredinol

16. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 14 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r ffyrdd, y darnau o ffordd neu ar ochrau y ffordd neu'r ardaloedd llwytho neu'r ardaloedd llwytho cerbydau nwyddau a bennir ynddynt gyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi:

(a) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio’n gyfleus at ddiben o’r fath mewn unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o’r gweithrediadau canlynol, sef:-

(i) gwaith adeiladu, gosod siopau, gweithrediadau diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) dileu unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r darnau neu’r ochrau ffordd dywededig; a

(iv) gosod, codi, newid neu gyweirio ar dir neu ar dir cyfagos i’r darnau neu ochrau dywededig unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw system delathrebu,

(v) at ddibenion ymarferwyr meddygol cymwys a milfeddygon pan fyddant ar alwad.

(b) y cerbyd, nad yw’n gerbyd teithwyr, os na ellir ei ddefnyddio’n gyfleus at ddibenion o’r fath mewn unrhyw ffordd arall i gael ei ddefnyddio wrth wasanaethu awdurdod lleol neu ei gontractwyr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol yr awdurdod hwnnw;

(c) cerbyd y Post Brenhinol neu ddarparwr gwasanaeth cyffredinol arall (fel y’i diffinnir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000) i gael ei ddefnyddio at ddibenion danfon a/neu gasglu post; neu

(d) mewn unrhyw achos pan fo’r sawl sy’n rheoli’r cerbyd,

(i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;

(ii) yn gorfod stopio er mwyn atal damwain, neu

(iii) yn cael ei atal rhag mynd ymlaen gan amgylchiadau y tu hwnt i’w reolaeth.

<u>Llwytho a dadlwytho</u>

17. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 12 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o’r ffyrdd, y darnau o ffordd neu ar

ochrau y ffordd neu'r ardaloedd llwytho a bennir ynddynt gyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi nwyddau gael eu llwytho i gerbyd neu eu dadlwytho o gerbyd (neu nwyddau neu farsiandïaeth i gael eu danfon neu eu casglu).

Mynd i mewn neu allan o gerbyd

18. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 a 12 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r ffyrdd, y darnau o ffordd neu ar ochrau y ffordd a bennir ynddynt gyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi rhywun i fynd i mewn neu allan o gerbyd.

Angladdau a phriodasau

19. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 a 12 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, os na all wneud hynny'n ddiogel ac yn gyfleus yn rhywle arall, yn unrhyw un o'r ffyrdd, y darnau o ffordd neu ar ochrau y ffordd a bennir ynddynt os yw'n gerbyd swyddogol a ddefnyddir ar gyfer angladdau neu briodasau.

Mannau parcio

20. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 14 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd barcio ar fan parcio dynodedig.

Pan fo cerbyd sy'n arddangos tystysgrif goddefeb yn aros

21. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 14 yn atal neb rhag achosi na chaniatáu i gerbyd aros mewn unrhyw ffordd waharddedig neu gyfyngedig os yw'n arddangos yn y safle perthnasol dystysgrif goddefeb dilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac os yw'r cerbyd yn aros yn unol â thelerau ac amodau y dystysgrif ddywededig.

Pan fo cerbyd pobl anabl yn aros neu'n parcio

22. (1) bydd cerbyd person anabl:-

(a) yn esempt rhag cydymffurfio ag Erthygl 11 am gyfnod o dair awr yn ddarostyngedig i'r amodau ym mharagraff (2) isod.

(b) yn esempt rhag cydymffurfio ag Erthygl 12 pan nad yw unrhyw gyfnod gwahardd aros arwahanol yn ystod yr oriau cyfyngedig a ddangosir ar y Cynlluniau yn fwy na thair awr, ar gyfer holl gyfnod y gwaharddiad hwnnw; ac

(c) yn esempt rhag cydymffurfio ag Erthygl 12 am gyfnod o dair awr pan fo unrhyw gyfnod gwahardd aros arwahanol yn ystod yr oriau cyfyngedig a ddangosir ar y Cynlluniau yn fwy na thair awr, yn ddarostyngedig i'r amodau ym mharagraff (2) isod.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt yn isbaragraffau (1)(a) a (1)(c) uchod yw:-

(a) na fydd y cyfnod aros a esemptir yn cychwyn lai nag un awr wedi cyfnod aros blaenorol a esemptiwyd ar gyfer yr un cerbyd ar yr un ffordd ar yr un diwrnod; a

(b) yr arddangosir disg barcio wedi ei marcio i ddangos y cyfnod o chwarter awr pan gychwynnodd y cyfnod aros a esemptir yn y safle perthnasol ar y cerbyd.

Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 i 12 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi na chaniatáu i gerbyd person anabl nad yw'n achosi rhwystr ac sy'n arddangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl rhag aros neu barcio mewn ffordd waharddedig neu ffordd gyfyngedig a nodir ar y Cynlluniau (am gyfnod nad yw'n fwy na thair awr (nad yw'n gyfnod a wahenir gan gyfnod o lai nag un awr ers cyfnod o aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un darn o'r ffordd neu ar yr un ochr i'r ffordd ar yr un diwrnod) ar yr amod bod y cerbyd yn union cyn neu ar ôl y weithred o aros neu barcio wedi ei yrru neu ei ddefnyddio, neu'n mynd i gael ei yrru neu ei ddefnyddio, gan y sawl y cyflwynwyd y bathodyn iddo neu, yn ôl y digwydd, ei ddefnyddio i gludo person(au) anabl fel teithiwr/teithwyr.

Safleoedd tacsis

23. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 11 a 12 yn atal neb rhag achosi na chaniatáu i gerbyd hacni trwyddedig stopio neu aros mewn unrhyw safle tacsis awdurdodedig priodol yn ystod y cyfnod gweithredu a bennir ar y Cynlluniau.

24. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd heblaw cerbyd hacni stopio neu aros ar safle tacsis yn ystod y cyfnod gweithredu.

25. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd hacni stopio neu aros ar safle tacsis yn ystod y cyfnod gweithredu ac eithrio at ddibenion ceisio cael ei hurio.

Amodau cyffredinol ar gyfer aros

26. Ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd aros oni bai bod pob olwyn ar y gerbytffordd ac, os yw'r amodau'n mynnu y dylai'r cerbyd aros yn gyfochrog â'r palmant, fel nad yw'r pellter rhwng ymyl y gerbytffordd ac olwyn agosaf y cerbyd yn fwy na 50cm.

27. Ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd aros fel bod unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw gwrb isel nac unrhyw ddull cerbydol o fynd i mewn neu allan o fangre sydd wrth ymyl ochr y ffordd y mae'r cerbyd yn aros arni.

## ADRAN 3—MANNAU PARCIO A GANIATEIR

### Mannau parcio aros cyfyngedig

Dynodi mannau parcio aros cyfyngedig

28. Drwy hynny, dynodir y rhannau o'r ffyrdd a nodir felly ar y Cynlluniau i'w defnyddio yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel mannau parcio aros cyfyngedig. Gallai'r Cynlluniau bennu gwaharddiadau, cyfyngiadau neu amodau mewn cysylltiad â pharcio neu ddefnydd arall o fannau parcio aros cyfyngedig a

gallent nodi esemptiadau i waharddiadau, cyfyngiadau, cyfyngiadau neu amodau o'r fath. Bydd y defnydd o fannau parcio aros cyfyngedig yn ystod yr oriau gweithredu a nodir yn y Cynlluniau yn ddarostyngedig i waharddiadau, cyfyngiadau neu amodau o'r fath fel y nodir ar y Cynlluniau.

29. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb achosi na chaniatáu i fan parcio aros cyfyngedig gael ei ddefnyddio ac eithrio yn unol â'r Cynlluniau ac Erthyglau 30 i 32 isod.

Dosbarthiadau o gerbydau y dynodir mannau parcio aros cyfyngedig ar eu cyfer

30. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y Gorchymyn hwn, ceir defnyddio mannau parcio aros cyfyngedig yn ystod yr oriau a ganiateir ar gyfer parcio cerbydau teithwyr, cerbydau nwyddau ysgafn, beiciau modur, cerbydau trydan, ceir modur a cherbydau sy'n arddangos bathodyn person anabl..

Cyfyngu ar barcio

31. Ac eithrio mewn argyfwng, ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio aros cyfyngedig am fwy na'r cyfnod hwyaf a bennir ar gyfer y man parcio hwnnw yn y Cynlluniau.

Dim dychwelyd

32 Pan fo cyfnod pan na chaniateir i gerbyd barcio eto yn y man parcio aros cyfyngedig a nodir yn y Cynlluniau, ni chaiff neb ganiatáu nac achosi i'r cerbyd barcio eto yn y man parcio hwnnw nes bod y cyfnod penodedig hwnnw wedi dod i ben (heb fod yn gyfnod a wahanir gan ysbaid sy'n llai na'r hyn a nodir ar y Cynlluniau ar ôl y

cyfnod blaenorol pan fu’r un cerbyd yn aros yn yr un darn o’r ffordd neu ar yr un ochr i’r ffordd ar yr un diwrnod).

Parcio ar y llain ac ar droedffordd

33. Pan nodir y caniateir parcio yn rhannol ar y llain neu ar droedffordd ar y Cynlluniau, ni fydd unrhyw beth yn ei gwneud yn anghyfreithlon i neb achosi neu ganiatáu cerbyd o’r dosbarth a bennir i barcio mewn man parcio sy’n rhannol ar y llain neu ar droedffordd.

**Mannau parcio meddygon**

Dynodi mannau parcio ar gyfer meddygon

34. Mae’r rhannau o’r ffyrdd a nodir felly ar y Cynlluniau wedi eu dynodi gan hynny i’w defnyddio yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel mannau parcio ar gyfer meddygon, a cheir eu defnyddio yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn ar ddiwrnodau o’r fath ac yn ystod unrhyw oriau a bennir ar y Cynlluniau.

35. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd barcio mewn man parcio ar gyfer meddygon yn ystod yr oriau a ganiateir oni bai ei fod yn arddangos yn y safle perthnasol drwydded meddyg sy’n ddilys ar gyfer y cerbyd hwnnw, yr amser hwnnw a’r man parcio hwnnw.

36. Bydd y Cyngor y cyflwyno trwydded meddyg ar ffurf o’r fath ac yn ddarostyngedig i’r fath amodau y cytuno’r Cyngor arnynt o bryd i’w gilydd.

Tystysgrif goddefeb

37 Cyflwynir tystysgrif goddefeb yn ôl disgresiwn llwyr y Cyngor yn ddarostyngedig i amodau y Gorchymyn hwn er mwyn caniatáu i gerbydau barcio. Bydd camddefnyddio'r dystysgrif goddefeb yn ddarostyngedig i dorri'r Gorchymyn hwn.

**Mannau parcio pobl anabl**

Dynodi mannau parcio pobl anabl

38 Mae'r rhannau o'r ffyrdd a nodir felly ar y Cynlluniau wedi eu dynodi gan hynny i'w defnyddio yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel mannau parcio ar gyfer cerbydau sy'n arddangos bathodyn person anabl, a cheir eu defnyddio yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn ar ddiwrnodau o'r fath ac yn ystod unrhyw oriau a bennir ar y Cynlluniau.

Arddangos bathodyn person anabl

39 Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd barcio mewn man parcio ar gyfer person anabl yn ystod yr oriau a ganiateir oni bai bod y cerbyd hwnnw'n arddangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl dilys ar yr amod bod y cerbyd, yn syth cyn neu ar ôl y weithred o barcio, wedi ei yrru neu ei ddefnyddio, neu'n mynd i gael ei yrru neu ei ddefnyddio, gan y sawl y cyflwynwyd y bathodyn iddo neu, yn ôl y digwydd, i'w ddefnyddio ar gyfer cludo person(au) anabl fel teithiwr/teithwyr.

**Mannau parcio trwydded yn unig**

Dynodi mannau parcio ar gyfer deiliaid trwydded yn unig

40. Dynodir gan hynny y mannau parcio a nodir yn y Cynlluniau fel lleoedd parcio ar gyfer deiliaid trwydded yn unig yn rhai y cyfyngir ar eu defnydd yn ystod yr oriau a

ganiateir gan gerbydau sy’n arddangos trwydded ddilys neu’n caffael trwydded ddilys drwy fodd electronig.

41. Ni fydd neb yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd barcio yn unig fan parcio deiliad trwydded ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnodau a nodir yn y Cynllun oni bai

(a) bod trwydded ddilys ar gyfer y man parcio hwnnw yn cael ei harddangos yn y safle perthnasol ar y cerbyd hwnnw; neu
(b) bod y cerbyd wedi ei barcio yn unol â thrwydded parcio rithwir; neu
(c) bod y cerbyd wedi ei awdurdodi i barcio yn rhinwedd ei fod wedi gwneud taliad drwy ddull talu cymeradwy arall.

<u>Trwyddedau i’w harddangos ar gerbydau a thrwyddedau parcio rhithwir</u>

42. Ar bob adeg pan fo cerbyd wedi ei barcio mewn man parcio ar gyfer deiliaid trwydded yn unig yn ystod yr oriau a ganiateir, rhaid i yrrwr y cerbyd arddangos yn y safle perthnasol drwydded ddilys a gyflwynwyd mewn cysylltiad â’r man parcio sy’n ymwneud â’r cerbyd hwnnw neu fod wedi caffael trwydded parcio rithwir neu wneud rhyw ddull cymeradwy arall o dalu mewn cysylltiad â’r cerbyd hwnnw sy’n ymwneud â’r man parcio y mae’r cerbyd hwnnw wedi ei barcio ynddo.

43. Pan fo trwydded wedi ei harddangos ar gerbyd yn unol â’r Erthygl flaenorol, ni chaiff neb ac eithrio gyrrwr y cerbyd symud y drwydded o’r cerbyd oni bai ei fod wedi cael awdurdod i wneud hynny gan yrrwr y cerbyd.

**Mannau parcio eraill**

<u>Dosbarthiadau arbennig o gerbydau</u>

44. Mae’r rhannau o’r ffyrdd a nodir felly ar y Cynlluniau wedi eu dynodi gan hynny i’w defnyddio yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel

mannau parcio ar gyfer dosbarthiadau penodol o gerbydau, a cheir eu defnyddio yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn ar ddiwrnodau o’r fath ac yn ystod unrhyw oriau a bennir ar y Cynlluniau.

45. Pan ddarperir mannau parcio ar gyfer gadael dosbarthiadau penodol o gerbyd gyda neu heb dâl neu derfyn amser, ni chaiff neb achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd barcio yn y man parcio hwnnw yn ystod y cyfnodau a bennir yn y Cynlluniau, oni bai ei fod o’r dosbarth a nodir, ar ôl talu unrhyw dâl ac

(a) am gyfnod sy’n hwy na’r hyn a nodir, neu

(b) yn ystod cyfnod pan na cheir parcio cerbyd eto yn y man parcio a nodir yn y Cynlluniau, ni chaiff neb ganiatáu nac achosi’r cerbyd i barcio eto yn y man parcio hwnnw nes i’r cyfnod penodol hwnnw ddod i ben neu

(c) os yw’r gilfach ar gyfer cerbydau trydan yn unig, rhaid i’r cerbyd fod yn gwefru pan mae wedi ei barcio yn y gilfach gwefru cerbydau trydan.

Cilfachau gwefru cerbydau trydan

46. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn ardal sydd wedi ei marcio fel cilfach parcio cerbydau trydan oni bai bod y cerbyd yn gerbyd trydan sydd wedi ei gysylltu â phwynt gwefru cerbyd trydan drwy lîd cysylltu at ddiben ailwefru batris y cerbyd trydan a rhaid iddo fod yn cael ei wefru.

**Amodau cyffredinol mewn cysylltiad â mannau parcio**

Y modd o barcio car mewn man parcio

47. Oni nodir fel arall gan farciau ar y gerbytffordd, bydd pob cerbyd sydd wedi ei barcio mewn man parcio yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn yn sefyll:

(i) fel nad yw’r pellter rhwng ymyl y gerbytffordd ac olwyn agosaf y cerbyd yn fwy na 50cm;

(ii) fel nad oes unrhyw ran o’r cerbyd yn rhwystro unrhyw ddull cerbydol o fynd i mewn i neu allan o’r fangre sydd wrth ymyl ochr y ffordd lle mae’r cerbyd wedi parcio; a

(iii) fel bod pob rhan o’r cerbyd o fewn terfynau y man parcio fel y maent wedi eu marcio ar y gerbytffordd.

Newid safle cerbyd mewn man parcio

48. Pan fo unrhyw gerbyd yn sefyll mewn man parcio yn groes i ddarpariaethau y Erthygl flaenorol, caiff unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg newid neu achosi i safle y cerbyd gael ei newid fel bod ei safle yn cydymffurfio â’r darpariaethau hynny.

Symud cerbyd sydd mewn man parcio mewn argyfwng

49. Caiff unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg symud unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio mewn man parcio neu achosi iddo gael ei symud, mewn achos o argyfwng, i unrhyw le y mae’n credu sy’n addas, a bydd yn gwneud darpariaethau i gadw’r cerbyd yn ddiogel.

Atal y defnydd o fan parcio

50. Caiff unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi’n briodol gan y Cyngor atal y defnydd o fan parcio neu unrhyw ran ohono pryd bynnag y mae’n ystyried bod ataliad o’r fath yn rhesymol angenrheidiol:

(a) at ddibenion hwyluso symudiad traffig neu hybu ei ddiogelwch;

(b) at ddibenion unrhyw weithrediad adeiladu, dymchwel neu gloddio wrth ymyl y man parcio, cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r briffordd

neu lanhau cafnau yn y man parcio neu wrth ei ymyl, gwaith gosod, codi, newid neu atgyweirio yn y man parcio neu wrth ymyl y man parcio neu unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell, offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw system delathrebu neu er mwyn gosod, cynnal a chadw neu symud unrhyw arwydd traffig;

(c) er hwylustod neu feddianwyr mangreoedd sydd wrth ymyl y man parcio ar unrhyw achlysur pan maent yn symud dodrefn i neu o un swyddfa neu dŷ annedd sydd wrth ymyl y man parcio o neu i storfa dros dro, swyddfa neu dŷ annedd arall;

(d) ar unrhyw achlysur pan mae'n debygol oherwydd atyniad arbennig y bydd unrhyw stryd yn cael ei thyrru neu ei thagu;

(e) er hwylustod i feddianwyr mangreoedd sydd wrth ymyl y man parcio pan fo priodasau neu angladdau, neu ar achlysuron arbennig eraill;

neu

(f) ar unrhyw achlysur er budd symudiad traffig neu gerddwyr a diogelwch pan fo digwyddiad arbennig yn y cyffiniau;

51. Caiff unrhyw unigolyn awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn gwisg atal am ddim hwy na saith niwrnod ar y tro y defnydd o fan parcio neu unrhyw ran ohono pryd bynnag y mae'n ystyried bod ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion hwyluso symudiad traffig neu hybu ei ddiogelwch.

52. Gyda hynny, bydd unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi'n briodol gan y Cyngor neu swyddog heddlu sy'n atal y defnydd o fan parcio neu unrhyw ran ohono yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn yn gosod arwydd traffig yn nodi bod parcio cerbydau wedi ei wahardd, neu'n achosi i arwydd o'r fath gael ei osod, yn neu wrth ymyl y man parcio hwnnw neu ran ohono.

Dim parcio mewn man parcio sydd wedi ei atal

53. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn man parcio nac unrhyw ran ohono yn ystod cyfnod pan fo'r Cyngor neu swyddog heddlu wedi atal y defnydd o'r man parcio hwnnw neu ran ohono ac yn arddangos rhybudd ynghylch ataliad o'r fath ar y man parcio hwnnw neu'n agos ato.

54. Ni fydd unrhyw beth yn yr Erthygl flaenorol yn ei gwneud yn dramgwydd achosi neu ganiatáu i gerbyd gael ei barcio mewn man parcio sydd wedi ei atal, pan fo'r cerbyd yn arddangos yn y safle perthnasol oddefeb ddilys neu dystysgrif goddefeb a gyflwynwyd gan y Cyngor, a phan fo'r cerbyd wedi ei barcio yn unol â thelerau ac amodau y dystysgrif ddywededig.

Cyfyngiadau ar ddefnyddio cerbydau mewn man parcio

55. Yn ystod yr oriau a ganiateir, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fan parcio nac unrhyw gerbyd pan ei fod mewn man parcio

a. i gyflawni unrhyw fasnach,
b. mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig neu roi nwyddau ar ddangos i'w gwerthu i neb yn y man parcio nac yn agos ato, nac
c. mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig gwerthu ei sgiliau mewn gwaith llaw na'i wasanaethau mewn unrhyw ffordd arall:

Ar yr amod na fydd dim yn yr Erthygl hon yn atal gwerthu nwyddau o gerbyd os oes tystysgrif ddilys i ddangos Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd a gyflwynwyd gan y Cyngor yn cael ei harddangos yn y cerbyd a bod y cerbyd yn cael ei weithredu yn unol ag unrhyw amodau y dystysgrif ddywededig.

Eithriadau i gyfyngu ar barcio gan gerbyd mewn man parcio

56. Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, ceir parcio unrhyw gerbyd yn ystod yr oriau a ganiateir mewn unrhyw ran o fan parcio os nad yw'r defnydd o'r rhan honno wedi ei hatal ac os:

(a) yw'r cerbyd wedi ei barcio cyhyd ag y bo angen er mwyn galluogi unrhyw unigolyn i fynd i mewn neu allan o gerbyd neu er mwyn llwytho neu ddadlwytho ei fagiau personol ohono;

(b) yw'r cerbyd wedi ei barcio oherwydd bod y gyrrwr yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth neu fod parcio o'r fath yn angenrheidiol er mwyn osgoi damwain;

(c) yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan feddyg neu nyrs sy'n ymweld â mangre yn rhan o'u dyletswyddau swyddogol o ofalu am glaf, oddi wrth eu gweithle arferol, wrth ymyl y man parcio;

(d) yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion tân ac achub, ambiwlans neu heddlu neu, heb fod yn gerbyd teithwyr, yn cael ei ddefnyddio wrth wasanaethu awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol ar yr amod ei bod yn rhesymol angenrheidiol o dan yr holl amgylchiadau wrth arfer pwerau o'r fath neu wrth gyflawni dyletswyddau o'r fath i'r cerbyd barcio yn y man lle mae wedi ei barcio;

(e) yw'r cerbyd wedi ei barcio cyhyd ag y bo angen er mwyn i'w alluogi i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â symud unrhyw rwystr i draffig;

(f) yw cerbyd y Post Brenhinol neu ddarparwr gwasanaeth post cyffredinol arall (fel y'i diffinnir yn Adran 4(3) a (4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000) wedi ei barcio at ddibenion danfon a/neu gasglu post; neu

(g) mewn unrhyw achos arall, fod y cerbyd wedi ei barcio at ddibenion danfon neu gasglu nwyddau neu lwytho neu ddadlwytho'r cerbyd mewn mangreoedd sydd wrth ymyl y man parcio lle mae'r cerbyd wedi ei barcio ac nad yw'r cerbyd yn parcio am gyfnod sy'n hwy nag 20 munud nac am gyfnod hirach o'r fath y gallai unigolyn awdurdodedig ei gymeradwyo.

Eithriadau ar gyfer cerbydau sy'n arddangos bathodyn person anabl dilys

57. (1) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn, bydd cerbyd person anabl, os caiff ei adael mewn man parcio nad yw wedi ei atal, yn esempt rhag

(a) unrhyw dâl i’w dalu;

(b) unrhyw gyfnod hwyaf pryd y caiff y cerbyd aros yn y man parcio;

(c) unrhyw gyfnod sy’n gorfod mynd heibio cyn y ceir gadael cerbyd a gymerwyd o fan parcio yno eto, neu’n rhywle arall ar yr un ffordd;

(d) unrhyw waharddiad ar y cerbyd hwnnw neu’r dosbarth o gerbyd sy’n aros yn y man parcio hwnnw bob amser o’r dydd neu yn ystod un neu fwy o gyfnodau penodedig o’r dydd, fel y darperir ar eu cyfer ym mharagraffau (2) a (3) isod.

(2) Pan nad yw cyfnod y gwaharddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(d) yn fwy na thair awr, bydd yr eithriad ar gyfer y cyfnod gwahardd hwnnw yn ei gyfanrwydd.

(3) Pan fo cyfnod y gwaharddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(d) yn fwy na thair awr, bydd eithriad am gyfnod o dair awr ar yr amod –

(a) na fydd y cyfnod aros a esemptir yn cychwyn lai nag un awr wedi cyfnod aros blaenorol a esemptiwyd ar gyfer yr un cerbyd ar yr un ffordd ar yr un diwrnod; a

(b) yr arddangosir disg barcio wedi ei marcio i ddangos y cyfnod o chwarter awr pan gychwynnodd y cyfnod aros a esemptir yn y safle perthnasol ar y cerbyd.

<u>Eithriadau ar gyfer cerbydau sy’n arddangos tystysgrif goddefeb dilys</u>

58. Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, ceir parcio unrhyw gerbyd sy’n arddangos yn y safle perthnasol dystysgrif goddefeb dilys a gyflwynwyd gan y Cyngor

(i) heb derfyn amser yn ystod yr oriau a ganiateir mewn unrhyw ran o fan parcio os nad yw'r defnydd o'r rhan honno wedi ei atal, neu

(ii) mewn unrhyw ran o fan parcio y mae ei defnydd wedi ei hatal;

ar yr amod bod y cerbyd wedi ei barcio yn unol â thelerau ac amodau y dystysgrif ddywededig.

Gosod arwyddion traffig ac ati.

59. Bydd y Cyngor yn gwneud yr hyn a ganlyn:

(a) gosod a chynnal arwyddion traffig sy'n nodi terfynau pob man parcio,

(b) gosod a chynnal arwyddion traffig y cymeradwywyd eu dyluniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Drafnidiaeth sy'n nodi y ceir defnyddio mannau parcio o'r fath yn ystod yr oriau a ganiateir, gan adael cerbydau y dosbarthiadau penodedig yn unig, ac

(c) cyflawni gwaith arall o'r fath fel y bo ei angen yn rhesymol at ddibenion gweithredu man parcio yn foddhaol.

**ADRAN 4—AMODAU O RAN TRWYDDEDAU A THYSTYSGRIFAU**

Y dosbarthiadau o gerbydau y mae trwyddedau'n gymwys ar eu cyfer

60. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y Gorchymyn hwn, ceir cyflwyno trwyddedau mewn cysylltiad â’r dosbarthiadau o gerbydau a ganlyn: cerbydau teithwyr, cerbydau nwyddau ysgafn, beiciau modur, cerbydau trydan a cherbydau pobl anabl ac unrhyw ddosbarth cerbyd arall yn ôl disgresiwn llwyr y Cyngor.

Defnyddio trwyddedau

61. Ni fydd trwydded yn ddilys heblaw i’w defnyddio mewn man parcio ar ffordd neu yn yr ardal a nodir ar y drwydded ac a bennir ar y Cynlluniau.

**ADRAN 5—TRAMGWYDDO A THÂL COSB**

Tramgwydd

62. Os yw cerbyd yn aros neu’n parcio heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, bydd tramgwydd wedi digwydd, a bydd tâl cosb yn daladwy a cheir symud y cerbyd o’r man parcio hwnnw.

Cyfyngu ar ddilead hysbysiadau tâl cosb

63. Pan fo hysbysiad tâl cosb wedi ei atodi i gerbyd yn unol â darpariaethau y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb nad yw’n yrrwr y cerbyd, yn swyddog heddlu mewn gwisg, neu’n unigolyn awdurdodedig symud yr hysbysiad oddi ar y cerbyd oni bai ei fod wedi cael awdurdod i wneud hynny gan geidwad y cerbyd.

**ADRAN 6—DIRYMIADAU**

64. Mae Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013 a’i holl Orchmynion diwygio dilynol, neu rannau o Orchymyn neu ddiwygiadau 2013, sy’n

gosod y cyfyngiadau a ganlyn:

(a) Gwahardd a chyfyngiadau ar barcio a llwytho a dadlwytho;

(b) Gwahardd stopio,

(c) Ardaloedd llwytho, ardaloedd llwytho ar gyfer cerbydau nwyddau

(d) Cyfyngiadau ar fannau parcio,

(e) Cyfyngiadau ar fannau parcio i bobl anabl, ac

(f) Cyfyngiadau ar fannau parcio ar gyfer beiciau modur

fel y maent yn ymwneud â phob ffordd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyn y Gorchymyn hwn, yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a, phan fo hynny'n briodol, ddiddymir gan hynny Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL )**
**PEN-Y-BONT AR OGWR yma )**
**Ar y 19 diwrnod o Tachwedd 2024 )**
**ym mhresenoldeb:– )**

**Llofnodwr Awdurdodedig:**

# ATODLENNI

Dyma Atodlen 1 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Cydgrynhoi) Gorchymyn 2024

Y Cynlluniau

Dyma Atodlen 2 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Cydgrynhoi) Gorchymyn 2024

Mynegai y Cynllun

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H55 | H56 | H69 | H70 | I55 | I70 | I71 | I72 |
| I73 | I74 | J64 | J65 | J66 | J67 | J71 | J72 |
| J73 | J74 | J75 | J76 | K55 | K56 | K57 | K60 |
| K61 | K62 | K63 | K69 | K73 | K74 | K75 | K76 |
| K77 | L54 | L55 | L56 | L57 | L58 | L59 | L60 |
| L63 | L73 | L74 | L75 | L76 | L77 | M53 | M54 |
| M55 | M56 | M57 | M58 | M59 | M71 | M72 | M73 |
| M74 | M75 | N52 | N53 | N54 | N56 | N71 | N72 |
| N73 | O51 | O52 | O53 | O56 | O57 | O58 | O71 |
| O72 | O73 | O74 | O75 | O76 | P51 | P58 | P59 |
| P60 | Q60 | Q61 | R10 | R11 | R12 | R13 | R14 |
| R15 | R16 | R17 | R18 | R19 | R20 | R21 | R5 |
| R61 | R62 | R8 | R9 | S17 | S18 | S19 | S20 |
| S28 | S5 | S52 | S6 | S62 | S63 | S7 | S8 |
| S9 | T17 | T19 | T20 | T21 | T22 | T23 | T24 |
| T25 | T28 | T5 | T52 | T6 | T63 | T64 | T7 |
| U20 | U21 | U22 | U23 | U24 | U25 | U28 | U29 |
| U64 | V28 | V29 | V30 | V64 | V65 | W63 | W64 |
| W65 | W66 | X63 | X64 | X66 | Y49 | Y66 | Y67 |
| Z62 | Z63 | Z64 | Z65 | Z67 | Z68 | AA40 | AA41 |
| AA44 | AA45 | AA47 | AA48 | AA49 | AA50 | AA51 | AA55 |
| AA59 | AA61 | AA62 | AA64 | AA68 | AB36 | AB37 | AB45 |
| AB46 | AB47 | AB48 | AB49 | AB50 | AB51 | AB52 | AB60 |
| AB61 | AB62 | AB63 | AB64 | AB65 | AB68 | AC11 | AC12 |
| AC13 | AC14 | AC15 | AC16 | AC17 | AC18 | AC19 | AC37 |
| AC45 | AC47 | AC48 | AC49 | AC59 | AC60 | AC61 | AC62 |
| AC63 | AC64 | AC65 | AC66 | AC67 | AC68 | AD18 | AD19 |
| AD21 | AD22 | AD25 | AD26 | AD27 | AD44 | AD48 | AD54 |
| AD55 | AD56 | AD57 | AD58 | AD59 | AD60 | AD61 | AD62 |
| AD63 | AD64 | AD65 | AD66 | AD67 | AD68 | AE33 | AE34 |
| AE43 | AE44 | AE45 | AE46 | AE47 | AE48 | AE54 | AE55 |
| AE56 | AE57 | AE58 | AE59 | AE60 | AE61 | AE62 | AE63 |
| AE64 | AE65 | AE66 | AE67 | AE68 | AF33 | AF45 | AF46 |
| AF54 | AF55 | AF62 | AF63 | AF64 | AF68 | AF69 | AG61 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AG62** | **AG63** | **AG64** | **AG65** | **AG68** | **AH62** | **AH63** | **AH67** |
| **AH68** | **AI12** | **AI16** | **AI17** | **AI18** | **AI21** | **AI22** | **AI23** |
| **AI24** | **AI66** | **AI67** | **AJ11** | **AJ12** | **AJ13** | **AJ14** | **AJ15** |
| **AJ16** | **AJ22** | **AJ23** | **AJ24** | **AJ35** | **AJ36** | **AJ65** | **AJ66** |
| **AJ68** | **AK63** | **AK64** | **AK65** | **AK67** | **AK68** | **AL45** | **AL46** |
| **AL62** | **AL63** | **AM55** | **AM56** | **AM62** | **AN54** | **AN55** | **AN56** |
| **AN57** | **AN58** | **AN59** | **AN60** | **AN62** | **AO54** | **AO55** | **AO56** |
| **AO57** | **AO58** | **AO59** | **AO60** | **AO61** | **AO62** | **AP54** | **AP55** |
| **AP56** | **AP57** | **AP58** | **AP59** | **AP60** | **AP61** | **AR25** | |

Dyma Atodlen 3 y cyfeirir ati yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Cydgrynhoi) Gorchymyn 2024

## ATODLEN 3—FFYRDD PARCIO Â THRWYDDEDAU A FFIOEDD TRWYDDEDAU

Nodiadau sy'n berthnasol i bob safle yn Atodlen 3:

(i) Ceir cadw un drwydded preswylydd fesul unigolyn sydd â chyfeiriad yn ffordd y cynllun sy'n cwmpasu'r ffordd

(ii) Nid oes cyfyngiad ar nifer y trwyddedau fesul aelwyd

(iii) Ceir cadw un drwydded ymwelwyr ar y tro am bythefnos fan hwyaf, fesul cyfeiriad yn ffordd y cynllun sy'n cwmpasu'r ffordd ar unrhyw adeg.

(iv) Nid oes cyfyngiad o ran sawl gwaith y caiff aelwyd wneud cais.

(v) Oriau Gweithredu cynlluniau Trwyddedu: Fel yr arwyddir ar bob ffordd unigol.

### ARDALOEDD TRWYDDEDAU PRESWYLWYR (NAD YDYNT YN DDAROSTYNGEDIG I DÂL TRWYDDED)

| STRYD | TREF | **FFI TRWYDDED** |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| ALFRED STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| AUSTRALIAN TERRACE | PEN-Y-BONT AR OGWR | DI-DÂL |
| CASTLE STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| CROSS STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| EDWARD STREET | PEN-Y-BONT AR OGWR | DI-DÂL |
| FERRIERS ROW | MAESTEG BLAENGARW | DI-DÂL |
| GOODWIN STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| MACKWORTH ROAD | PORTHCAWL | DI-DÂL |
| MEADOW STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| PLASNEWYDD STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| QUEEN STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| RIVER STREET | MAESTEG | DI-DÂL |

| | | |
|---|---|---|
| THE STRAND | BLAENGARW | DI-DÂL |
| TABOR PLACE | MAESTEG | DI-DÂL |
| TEMPLE STREET | MAESTEG | DI-DÂL |
| WELLFIELD AVENUE | PORTHCAWL | DI-DÂL |

**ARDALOEDD TRWYDDEDAU PRESWYLWYR (SY'N DDAROSTYNGEDIG I DÂL TRWYDDED)**

Nodiadau sy'n berthnasol i safleoedd lle mae tâl trwydded yn daladwy:

(i) Mae un Drwydded Breswyl yn Ddarostyngedig i Dâl o £20 y flwyddyn.

(ii) Mae un Drwydded Ymwelydd Preswylydd yn ddarostyngedig i Dâl o £20 ac mae'n ddilys am bythefnos.

| STRYD | TREF |
|---|---|
| PARTH 8 | |
| STRYD SUFFOLK | PEN-Y-BONT AR OGWR |
| JENKIN STREET | PEN-Y-BONT AR OGWR |
| MAES Y DE | PEN-Y-BONT AR OGWR |
| CHELTENHAM TERRACE | PEN-Y-BONT AR OGWR |
| CWRT YR YSGOL RAD | PEN-Y-BONT AR OGWR |